

## **Cyngor Cymuned Llanelian (283)**

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Ionawr 17, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Hefina Williams, David Gerrard, Cyng Richard Jones, Cyng Aled Jones

**Ymddiheuriadau:** Cyng Wil Hughes

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb, Nodyn Briffio a Chanllawiau'r Ombwdsmon**

Helen Hughes – Cynllunio

Cyng Richard Jones – Cynllunio

Dosbarthwyd gopiau o'r nodyn briffio a chanllawiau'r Ombwdsmon i'r rheini heb fynediad i'r we a chadarnhau bod pawb arall wedi derbyn y wybodaeth drwy ebost.

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Helen Hughes, eilio Thomas Jones.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Materion Priffyrdd**

Mae disgwyl ymateb pellach gan y Cyngor Sir ynglyn a'r gwaith ar y lon tuag at Bengorffwysfa a hefyd tu allan i'r ysgol.

Cafwyd wybod er gwybodaeth bod cyswllt wedi ei wneud a'r Cyngor Sir yn dilyn cwynion am blastic amaethyddol ar hyd y lon o Twrcelyn a bod disgwyl ymateb gan Mon Williams.

#### **4.2 Enwau Tai**

Cafwyd drafodaeth eto am bwysigrwydd enwau traddodiadol a hanesyddol yr ardal. Os na fydd Hefina Williams wedi gallu siarad a chynrychiolydd y Stad cyn y cyfarfod nesaf bydd cais swyddogol am gyfarfod i drafod ymhellach yn unol a'r cyfarfodydd diwethaf gyda cynrychiolwyr y stad.

#### **4.3 Rhos Newydd**

Daw cadarnhad gan y Cyngor Sir bod apel yn erbyn y rhybydd gorfodaeth. Mae angen i'r Cyngor Cymuned ymateb erbyn 2/2/2017. Yn ogystal a'r pwyntiau a wnaed yn wreiddiol (y clerc i wirio cofnodion y cyfarfodydd priodol), roedd yr aelodau yn awyddus i sicrhau bod y pryderon canlynol yn cael eu nodi:

- Swm
- Dim yn leoliad addas i'r math o waith/diwydiant
- Mynediad i'r safle
- Llwch a llygredd (mae ffynnon ar y safle)
- Math a maint y cerbydau
- Mwd a baw dros y priffordd (a5025) i gyd
- Parhau i gario deunyddiau i'r safle
- Parhau i weithio ar y safle
- Pridd wedi ei werthu o'r safle
- Safon bywyd trigolion cyfagos

Nodwyd bod gan y cwmni nes mis Mehefin i glirio'r safle cyn i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd. Cydnabyddwyd bod angen dilyn y camau priodol erbyn hyn a dilyn y system orfodaeth. Roedd yr aelodau yn ddiolchgar bod y Cyngor sir yn gweithredu.

#### **4.4 Ceir wedi'w Gadael**

Cafwyd ddiweddariad gan y Cyngor Sir yn datgan nad oeddent yn gallu gwneud mwy am y car sydd bellach wedi ei barcio yng ngardd un o'r tai Cyngor. Byddent yn edrych i fewn i'r gwyn am y garafan yn fuan yn y flwyddyn newydd. Cytuno cysylltu eto mewn mis am ddiweddariad.

Nodwyd bod cwyn arall yn ymwneud a cheir yn yr un ardal – mae'n debyg bod unigolyn yn trin ceir ar ochr y lon yn reolaidd. Mae pryderon ynglyn ag iechyd a diolgelwch yn ogystal a bod olew a sbwriel ar y lon. Cytuno codi ymwybyddiaeth y Cyngor Sir.

#### **4.5 Golau'r Neuadd**

Fe gadarnhaodd y Clerc ei bod wedi trafod y mater gyda Barri Roberts a'i fod wedi cytuno cysylltu ag Elfyn Hughes i drefnu cwrdd a gwneud y gwaith angenrheidiol. Nid oedd wedi gwneud hynnu hyd yma. Y clerch i gysylltu eto.

#### **4.6 Cytundeb Clerc**

Cytuno trafod eto pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Deallwyd bod y mater i'w drafod gan Un Llais Cymru yn eu cyfarfod nesaf. Bydd posib trefnu cyfarfod arbennig y pwyllgor cyllid i drafod ymhellach os oes angen.

#### **4.7 Hysbysfwrdd**

Cyflwynwyd gwahanol opsiynau sydd ar gael ar gyfer hysbysfwrdd, y maint sydd ar gael a'r deunyddiau gwahanol. Cytuno cysylltu a pherchnogion y siop i drafod a hwy pa ddeunydd fyddai orau ganddynt, a'r maint fyddai mwyaf priodol ar gyfer talcen y siop. Cytuno byddai hysbysfwrdd mawr yn rhoi cyfle i arddangos posteri ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn ogystal a materion y Cyngor.

#### **4.8 Llithrfa**

Cafwyd wybod gan Jeff Price bod y Cyngor Sir wedi cytuno talu am y faner a'r cais am wobwr ar gyfer y traeth eto yn 2017/18.

#### **4.9 Wylfa Newydd**

Cafwyd grynodedd gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod gyda Duncan Hawthorne, prif weithredwr Horizon, a drefnwyd gan Albert Owen ar gais Cyngor Tref Amlwch. Deallwyd bod Horizon yn ail edrych ar y cynlluniau posib ar gyfer Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd, ac hefyd yn edrych yn fanwl ar yr ymateb i'r ymgynghoriad diwethaf cyn cyflwyno eu cynlluniau terfynnol. Cydnabyddwyd mai y cymunedau agosaf at y datblygiad h.y. gogledd yr ynys fydd yn cael eu heffeithio mwyaf, a gyda hynnu fe gynnigwyd cyfarfod a thrafodaeth rheolaidd gyda cynrychiolwyr y cynghorau hynnu. Bydd cyfle eto i ymateb i gynlluniau'r cwmni mewn ymgynghoriad arall – PAC 3 dros y misoedd nesaf.

### **5 Cynllunio**

#### **5.1 Penderfyniadau**

Cafwyd wybod am benderfyniadau'r Cyngor Sir fel y ganlyn:

- Tan y Bryn Dulas (20C297/A/VAR) – caniatad
- The Bungalow, Llaneilian (24C337) - caniatad

#### **5.2 Ceisiadau**

Daw dau gais i'w trafod:

- Glascoed, Llaneilian – cefnogi
- Joint Houses, Penysarn – dim sylw ond atgoffa swyddogion bod cais am dy wedi ei wrthod yn y gorffennol.

### 5.3 **Apel**

Mae datblygwyr 'Bod Hyfryd' wedi apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod caniatad am 'glamping pods'. Cytuno peidio gwneud sylw pellach ar y cais.

## **6 Materion Ariannol**

### 6.1 **Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£491.91 Cyflog Tachwedd (cynnwys llithrfa)

£257.18 Costau Hydref-Rhagfyr

£1323.00 Cyngor Sir (Llithrfa)

£75.00 Riverside Flowers (Blodau beddi TY Moel Isaf)

£102.61 Viking Direct (offer gweinyddu)

£251.20 HMRC (PAYE)

### 6.2 **Ceisiadau am Arian**

Ni dderbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol.

### 6.3 **Adroddiad Chwarterol**

Dosbarthwyd copiau o'r adroddiad diweddaraf er gwybodaeth. Cafwyd grynodedb o'r prif wariant ac incwm y Cyngor hyd ddiwedd Rhagfyr 2016.

### 6.4 **Cyllideb 2017/18**

Dosbarthwyd copiau o argymhellion y pwyllgor cyllid ar gyfer y gyllideb 2017/18 ynghyd a chofnodion y cyfarfod. Trafodwyd y prif wariant a'r incwm disgwylidig. Nodwyd nad oedd unrhyw wariant ar y gofgolofn wedi ei gynnwys ar hyn o bryd ond byddai posib ceisio am grantiau petai angen. **Cytuno ar gyllideb o £20,756.07.** Cynnig Thomas Jones, eilio Glenys Jones, pawb yn gytun. Diolchwyd i'r pwyllgor cyllid am eu gwaith a chytuno dylid ffurfioli'r pwyllgor ym Mai pan fydd enwebu aelodau newydd ar gyfer is-bwyllgorau.

### 6.5 **Priseb 2017/18**

Cytuno yn unol a'r gyllideb codi **£11,977.41** drwy'r briseb. Pawb y gytun.

### 6.6 **Trefniadau Bancio**

Cytuno i'r clerc drefnu cael cerdyn debyd a bancio ar y we er mwyn hwyluso trefniadau bancio cyn i fanc Nat West gau yn Amlwch ddiwedd Mehefin. Ni fydd taliadau i'w gwneud gyda'r cerdyn debyd ond yn hytrach i dalu i fewn gan ddefnyddio'r Swyddfa Bost.

### 6.7 **Henaduriaeth Mon**

Nodwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan Henaduriaeth Mon yn datgan eu bod yn adolygu'r drefn gyfredol ar gyfer rheoli'r fynwent. Mae'r clerc wedi cadarnhau a hwy pa waith sydd ynghlwm a'r gytundeb presennol o safbwynt y Cyngor Cymuned.

### 6.8 **Cronfa Ty Moel Isaf**

Nid yw arian Ty Moel Isaf wedi dalu i gyfrif y Cyngor hyd yma ond mae'r cyfreithiwr am dalu rhandaliad sylweddol cyn gyntaf a phosib. Trafodwyd y pwysigrwydd o ddiogelu'r arian nes i'r gronfa pwrpasol gael ei sefydlu. Cytuno agor ail gyfrif gyda Swansea Building Society am y tro er mwyn cadw'r arian ar wahan i arian y Cyngor.

Cafwyd wybod gan y Clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad a Rob Owen, Cadeirydd Cronfa Padrig, sef elusen annibynnol i Gyngor Cymuned Llanbadrig sydd yn gyfrifol am reoli swm o arian er budd y gymuned. Cytuno trefnu cyfarfod cyn gynted a phosib gyda is-bwyllgor i drafod y camau sydd angen eu cymryd i ddiogelu arian Ty Moel Isaf. Yr aelodau enwebir i'r cyfarfod cychwynnol yw: Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Helen Hughes, Glenys Jones, Thomas Jones ac Elfyn Hughes.

## **7** **Gohebiaeth**

- 7.1 Pwyllgor Safonau – neb a diddordeb rhoi eu henw ymlaen.
- 7.2 Horizon – dyddiadau ar gyfer eu cymorthfeydd cymunedol nesaf
- 7.3 Linc Cymunedol Mon a Dewis Cymru – daw gwybodaeth gan Medrwn Mon am y ddau wasanaeth newyddyma er budd pobl yr ynys. Gwefannau ydynt yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau, gwsanaethau a digwyddiadau lleol.
- 7.4 Clerk and Councils Direct – rhifyn diweddaraf.

## **8** **Unrhyw Fater Arall**

- 8.1 Meinciau – nodwyd bod meinciau yn Nebo a ger Capel Bosra angen sylw. Cytuno cysylltu a Gwyn Roberts i gadarnhau pwy oedd yn gyfrifol. Nodwyd hefyd bod angen symud mainc o'r fynwent gan nad oedd yn ddiogel bellach.
- 8.2 Biniau Ailgylchu – mae'r biniau ger y Bedol angen eu gwagio eto. Cyng Aled Jones i drefnu.
- 8.3 Goleuadau – nodwyd bod ambell olau stryd yn didffygiol – Hefina Williams i gadarnhau gyda'r aelodau sirol pa rai sydd angen sylw.
- 8.4 Carffosiaeth – nodwyd bod problemau yn Lletroed Newydd eto yn ddiweddar, o bosib ynghlwm a'r datblygiadau newydd? Cytuno cadw golwg ar y sefyllfa.
- 8.5 Swyddfa Bost – mae si yn y pentref bod y Swyddfa yn cau. Nid oes unrhywbeth swyddogol wedi ei dderbyn hyd yma. Nodwyd bod cyfnod o ymgynghori cyn i benderfyniad o'r fath gael ei wneud. Cyngorwyr Sirol i gadw golwg ar y sefyllfa.

## **9** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Chwefror 14, 2017

Bu'r cyfarfod orffen am 9 o'r gloch

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**